


# Garn Fadryn

**43 Km - 27 milltir**

# Garn Fadryn

**43 Km - 27 miles**

## Taith Garn Fadryn

- Mae'r daith yn cychwyn o'r maes parcio ar y system unffordd yn Abersoch. Troi i'r dde wrth adael y maes parcio a throi i'r dde ar y gyffordd nesa gan gymeryd gofal arbennig o drafnidiaeth yn teithio o'r chwith.
- Troi i'r chwith tuag at Bwllheli a chymeryd y tro nesa i'r chwith tuag at Mynytho. Wedi tua 2 filltir, troi i'r dde gan ddilyn arwydd Mynytho. Cymeryd y tro nesa i'r chwith ac i fyny'r allt. Gwyro i'r dde ar y gyffordd a chroesi'r B4413 a chymeryd y tro cyntaf i'r chwith (safle picnic ar y chwith gyda golygfeydd godidog).
- Teithio'n syth ymlaen a throi i'r dde ym mhendraw y ffordd, dilyn y ffordd tuag at Rhydyclafdy gan ofalu arafu'n raddol ar yr allt serth. Troi i'r chwith ar y gyffordd nesa ac ymlaen i Rhydyclafdy. Wedi cyrraedd y pentref (man addas i orffwyso ar y chwith) troi i'r chwith ac ymhen tua milltir troi i'r dde tuag at Dinas.
- Wrth gyrraedd Dinas troi i'r dde ger y capel, teithio ymlaen ac ar draws y groesffordd nesa. Mae dau dro garw ar yr hyd nesa cyn cyrraedd Tudweiliog. Troi i'r dde ar y gyffordd yng nghanol y pentref a throi i'r chwith tuag at lan y môr wrth adael y pentref. Teithio ar hyd ffordd glan y môr a gwyro i'r chwith wedi cyrraedd Porth Ysgaden.
- Troi i'r chwith ar y gyffordd nesa yna troi i'r dde ar y B4417. Troi i'r chwith ar y gyffordd nesa tuag at Sarn Mellteyrn i'r chwith ar y gyffordd nesa ac i lawr yr allt yn ofalus. Pan fydd y ffordd yn gwyro i'r chwith mae angen troi i'r dde gyda gofal arbennig. Dilyn y ffordd i fyny'r allt serth a chymeryd y tro nesa i'r chwith. Troi i'r chwith ar y gyffordd nesa a dilyn y ffordd ymlaen tuag at Botwnnoog.
- Gwyro i'r dde ar y gyffordd gyda'r B4413, croesi'r bont a throi yn syth i'r dde. Teithio ymlaen heibio eglwys hynafol Llandygwning a throi i'r chwith ger Seithbont. Troi i'r dde tuag at Llangian ac yna cymeryd y tro cyntaf i'r dde tuag at Porth Neigwl. Dilyn y ffordd ymlaen tuag at Rhydolion ac yna troi i'r dde. Dilyn y ffordd a fe gyrhaeddwch ganol pentref Llanengan.
- Rhaid dilyn y ffordd yma ymlaen tuag at Abersoch ac wrth deithio i lawr yr allt fe welwch y man cychwyn

## Garn Fadryn Ride

- We recommend that you start this ride in the public car-park in Abersoch located within the one-way system in Lôn Gwydryn. Upon leaving car-park turn right and right again at next junction. Take special care with traffic approaching on your left.
- Bear left for Pwllheli and take the next left turn signed for Mynytho. After two miles turn right and follow the signs for Mynytho. Go left at the next junction and climb the hill. Ascend bearing to the right and at junction with the B4413 go first left (Note: the picnic site on your left with a wonderful southerly aspect).
- After the picnic site cycle straight ahead turning right at end of road. Follow signs for Rhydyclafdy taking care with the gradient of the hill. At next road junction continue left towards Rhydyclafdy. Upon arriving in the village turn left close to a resting place on your left. Proceed and after approximately a mile turn right for Dinas.
- Arriving in Dinas go right at the chapel. Cycle straight on through next crossroads. Before Tudweiliog there are two awkward turnings. At junction in the centre of Tudweiliog turn right and then left for the seashore to leave village. Proceed along seashore road descending left before Porth Ysgaden.
- At next junction bear left and then right at the junction with B4417. At the following junction go left towards Sarn Mellteyrn. At the following junction cycle left but take care whilst descending the hill. When the road veers to the left it is important to take special care when turning next right. Ascend hill taking the next left turn. Go left at next junction following the road straight to Botwnnog.
- Descend right towards the junction with B4413. Cross bridge taking a sudden right turn. Ride past the ancient church of Llandygwning before turning left near Seithbont. Turn right towards Llangian and take the first right in the direction of Porth Neigwl. Continue straight ahead and by the farm Rhydolion bear right. Follow road to arrive in the centre of Llanengan village.
- To arrive back at the departure point follow road straight towards Abersoch descending hill turning right into Lôn Gwydryn and the car-park.

# Garn Fadryn

**Cychwyn a Gorffen:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Canolfan Dwristiaeth Abersoch
**Parcio:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . ger y Neuadd
**Hyd y Daith:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . *43Km* - **27 milltir**
**Amser:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **3 - 4 awr**
**Trafnidiaeth Gyhoeddus Agosaf:** *Rheilffordd*: Pwllheli
O Ddrws i Ddrws - 01758 721777
**Gwasanaethau agosaf ar gyfer beicwyr:**
Partiau a thrwsio - Llŷn Cycle Centre, Yr Ala, Pwllheli. Ffôn: 01758 612414.


Tudweiliog - Porth Tywyn

Wrth ddringo o Abersoch i Fynytho fe welwch Garn Fadryn o'ch blaenau, ac ar y chwith bydd Porth Neigwl, Ynys Enlli a Mynydd y Rhiw. Yn y safle picnic yng nghysgod Y Foel Gron, Mynytho cewch fwynhau golygfeydd ysblennydd dros Fae Ceredigion ac at fynyddoedd Meirionnydd. Mae'r Ynysoedd Tudwal yn gorwedd yn dawel yng nghanol prysurdeb Bae Abersoch.

O Fynytho mae'r ffordd yn gymharol wastad a chewch gyfle i fwynhau golygfeydd rhyfeddol o'r ffordd sy'n arwain trwy Lanfihangel Bachellaeth - "y lle tawela' 'ngwlad Llŷn". O'r chwith i'r dde mae Garn Boduan, Yr Eifl, Eryri gyda'r Wyddfa a'i dau gopa, Bae Pwllheli ac ymlaen at Borthmadog.

Mae'r wlad yn fwy coediog wrth odre Garn Fadryn yng nghanol Llŷn ond buan y dowch i olwg y môr ar yr arfordir gogleddol gydag Ynys Môn ar y gorwel. Wedi gadael Tudweiliog cewch gyfle i ymweld â thraeth tywod Porth Tywyn neu borthladd creigiog Porth Ysgaden.

Mae'n werth galw i weld Coeten Arthur, y gromlech wrth droed Mynydd Cefnamwlch cyn parhau ar y daith i Sarn Mellteyrn.

Wrth ddilyn yr Afon Soch gwelwch dair o eglwysi hynafol Llŷn, sef Llandygwning a'i thwr anarferol, Llangian gyda'i maen hynafol yn y fynwent, a Llanengan a fu'n gyrchfan pererinion yn y canol oesoedd..


Eglwys Llandygwning